

CYFARFOD CYNGOR CYMUNED LLANDDOGED A MAENAN A GYNHALIWDYD YN YSGOL LLANDDOGED, LLANDDOGED NOS LUN 22ain Tachwedd 2019

PRESENNOL

Cyng. Eifion Williams(Cadeirydd), Cyng. Arwel Ll. Jones, Cyng. Alun Morris, Cyng. John Owen, Cyng. Dylan Jones, Cyng. Nerys Dobson, Cyng. Anwen Jones, Cyng. Hefin Martin, Cyng Austin Roberts, Delyth Algieri (clerc).

CADARNHAU'R COFNODION

Cadarnhawyd ac arwyddwyd cofnodion y Cyngor a gynhaliwyd ar y 21ain Hydref 2019.

Materion yn codi o'r cofnodion

EGIN WEN, LLANDDOGED

Derbyniwyd wybodaeth gan Mr Len Jackson Cyngor sir Conwy fod y gwaith o osod y golau yn y maes parcio Gegin Wen wedi cael ei gymeradwyo gan y Sir a bydd y gwaith yn cychwyn yn y dyfodol agos.

TARMACIO FFYRDD YR ARDAL

Cadarnhaodd Cyng. Austin Roberts fod y gwaith o darmacio ar y ffordd yr Abbey heibio'r Felin wedi cael ei gwblhau a bod ychydig o trafferthion angen ei datrys o ran ail tharmacio darn o'r ffordd o flaen ty Anthea Cull, Y Felin, Maenan.

CAE CETYN, CAE CHWARAE'R PENTREF

Nododd Cyng Arwel Jones fod y gwaith o dorri a thocio'r coed ar derfyn Maes yr Awel, Ffordd Trwyn Swch, Llanddoged a Chae Celyn Cae Chwarae Llandoged wedi ei gwblhau ond fod angen i'r sir dorri ddwy goeden arall yn y cae chwarae. Clerc i anfon y gwybodaeth am y ddwy goeden i'r Sir.

MAES PARCIO CADAIR IFAN GOCH, MAENAN

Bydd Cyng. John Owen yn cwblhau y gwaith tacluso sydd ei angen ym maes parcio Cadair Ifan Goch Maenan yn y dyfodol agos.

GOLEUO'R GOEDEN NADOLIG YM MHENTREF LLANDDOGED

Cadarnhaodd Cyng. John Owen a Cyng. Alun Morris fod y Goeden Nadolig wedi cael ei archebu ar gyfer y pentref Llanddoged. Penderfynwyd a phasiwyd i brynu goleuadau newydd ar gyfer y goeden gan fod y goleuadau presenol ddim mewn cyflwr da iawn. Nododd Cyng. A Morris ei fod wedi cael pris am £179 am oleuadau newydd a cymeradwyodd gweddill aelodau y Cyngor drwy godi eu dwylo i brynu y goleuadau am y pris o £179. Bydd y Cadeirydd y Cyngor Cyng. Eifion Williams yn rhoi y goleuadau ymlaen yn ystod Ffair Nadolig yr Ysgol sydd yn cael ei gynnal ar y 6ed o Ragfyr 2019

ADRODDIADAU CAEU CHWARAE Y LLANDDOGED A MAENAN

Derbyniwyd adroddiadau gan Mr Bryn Shiland o Gyngor Sir Conwy am gostau refeniw Cae chwarae Llanddoged a Maenan sydd yn cynnwys torri gwair, archwiliadau a gwaith atgyweirio o ddydd i ddydd a chynnal a chadw seilwaith presennol yr cae chwarae. Y costau cyfalaf yw'r costau amcangyfrifedig sy'n ofynnol i ddisodli'r holl eitemau gan gynnwys gosod wyneb diogelwch mewn rhaglen amnewid 10 mlynedd. Amcangyfrif o'r costau am y ddau gae chwarae fydd tua £3000.00. Aeth aelodau drwy y rhestr o ddiffygion sydd yn y ddau gae chwarae sydd yn ward Llanddoged a Maenan.

Penderfynwyd gofyn i Gyng Austin Roberts gael rhagor o wybodaeth gan Mr Shiland

DARPARU AR GYFER GOFYNION Y PRAESEPT 2002/2021

Rhanwyd gopi o'r amacangyfrif praesept ar gyfer y flwyddyn diwethaf i aelodau y Cyngor a thrafodwyd faint o arain praesept fydd ei angen ar gyfer y flwyddyn 2000/21. Bydd rhaid ystyried y gofynion newydd ar gyfer cynnal a chadw y caeau chwarae Llanddged a Maenan yn praesept 2020/21.

CYFLOG Y CLERC

Pasiwyd a penderfynwyd aelodau y Cyngor drwy godi ei dwylo i godi cyflog y clerc i cyfanswm o £3,000 y flwyddyn o Ebrill 1af 2020, bydd £600 o'r cyfanswm yn mynd i'r treth gwladol.

CYNLLUNIO

- Cais Rhif 0/46811 – Gosod polyn a chyn halbost foltedd isel newydd a dwy linell ABC uwchben – Plas Madoc, Llanrwst Rd, Llanddoded, Llanrwst LL26 OTT.

Pasiwyd fod dim gwrthwynebiad i'r cais cynllunio yma.

CYNNAL A CHADW

1. Twll yn y ffordd wrth Maes Bach, Ffordd Twyn Swch, Llanddoded.
2. Tyllau yn y ffordd a pheipen las yn codi i'r wyneb ar ffordd rhwng Padog a Fron Francis, Ffordd Fron Francis, Llanddoded.(mater brys).
3. Tyllau yn y ffordd tu allan i'r Ysgol Gynradd Llanddoded.
4. Angen diweddariad i arwyddion groesffordd Tŷ Uchaf Maenan.
5. Angen sweeper i hel y dail o'r ffos ar gyfer Allt Fron Francis a glanhau Allt Goch Llanddoded.
6. Concrit slaps angen ei ail gosod wrth ymyl y bocs blodau ym Maes Llan, Llanddoded.
7. Dwr yn hel yn gwaelod allt Pen Llan, llanddoded.
8. Dwr yn hel wrth cyffordd y ffordd sy'n fforchio am Sarn a Belmont Llanddoded.